# Bil Cartrefi Symudol (Cymru): Crynodeb o'r newidiadau a wnaed yn ystod Cyfnod 3

## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r prif newidiadau a wnaed i **Fil Cartrefi Symudol (Cymru)** ('y Bil') yn ystod trafodion Cyfnod 3, a hynny er gwybodaeth i Aelodau cyn trafodion y Cyfnod Adrodd, a amserlennwyd ar gyfer Cyfarfod Llawn **25 Medi 2013**. **Dyma'r tro cyntaf i'r Cyfnod Adrodd gael ei ddefnyddio yn y Cynulliad. Cyfnod dewisol ydyw ar gyfer cyflwyno gwelliannau ychwanegol. Ceir manylion pellach am y weithdrefn yn Rheol Sefydlog Rhif 26.45.**

## Cefndir

Cafodd y Bil, yn dwyn ei enw gwreiddiol, **Bil Safleoedd Rheoleiddiedig Cartrefi Symudol (Cymru)**, ei gyflwyno gan Peter Black AC, a oedd yn llwyddiannus yn y **balot** deddfwriaethol a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2011. Cafodd ganiatâd gan y Cynulliad i fwrw ymlaen â'i Fil ar **1 Chwefror 2012**, a gwnaeth ddatganiad yn ei gyflwyno yn y Cyfarfod Llawn ar **7 Tachwedd 2012**. Cafodd y Bil ei gyfeirio gan y Pwyllgor Busnes at y **Pwyllgor Cymunedau. Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol** ('y Pwyllgor') er mwyn iddo graffu arno yng Nghyfnod 1. Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad Cyfnod 1 ym mis **Chwefror 2013**. Cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ei **adroddiad** am ddarpariaethau is-ddeddfwriaeth y Bil yn yr un mis. Cafodd egwyddorion cyffredinol y Bil eu cymeradwyo'n unfrydol gan y Cynulliad yng Nghyfnod 1, yn dilyn dadl yn y Cyfarfod Llawn ar **13 Mawrth 2013**.

Cynhaliwyd trafodion Cyfnod 2 yng nghyfarfod y Pwyllgor ar **13 Mehefin 2013**, pan wnaed newidiadau mawr i'r Bil, gan gynnwys **newid ei enw** i **Fil Cartrefi Symudol (Cymru)**. Craffodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar y Bil ymhellach ar ôl Cyfnod 2, gan gyhoeddi **adroddiad atodol** cyn trafodion Cyfnod 3.

Dechreuodd Cyfnod 3 ar 14 Mehefin 2013 a chynhaliwyd y trafodion yn y Cyfarfod Llawn ar **10 Gorffennaf 2013**. Cyflwynwyd **199 o welliannau** i gyd, 185 ohonynt gan Lywodraeth Cymru, un gan yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil, Peter Black AC, a'r 13 a oedd yn weddill gan y gwrthbleidiau.

Ar ddiwedd trafodion Cyfnod 3, cynigiodd yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil **gynnig,** a gytunwyd gan y Cynulliad, i ganiatáu i welliannau pellach gael eu hystyried yn y Cyfnod Adrodd.

## Y gwelliannau a gytunwyd yng Nghyfnod 3

Cafodd pob un ond tri o'r 185 o welliannau a gyflwynwyd i'r Bil gan Lywodraeth Cymru eu derbyn (tynnwyd gwelliant 41 yn ôl, ac ni chafodd gwelliannau 66, 73 a 77 eu cynnig). Roedd 88 o welliannau'r Llywodraeth yn welliannau i fersiwn Gymraeg y Bil yn unig, a 22 ohonynt yn welliannau i fersiwn Saesneg y Bil yn unig.

Cafodd gwelliant 135A, a gyflwynwyd gan yr Aelod sy'n gyfrifol, Peter Black AC, ei dderbyn. O'r 13 o welliannau a oedd yn weddill o eiddo'r gwrthbleidiau, ni chafodd 5 eu derbyn, ni chafodd 5 eu cynnig, a methodd 3 arall. Dyma grynhoi'r newidiadau mwyaf sylweddol i'r Bil.

### Gwelliannau technegol a chanlyniadol

- Roedd 143 o welliannau'r Llywodraeth yng ngrŵp 1, pob un ohonynt yn gwneud mân ddiwygiadau i'r Bil. Cafodd pob un ohonynt eu derbyn.
- Gwelliannau canlyniadol technegol yn y bôn oedd yn y grŵp olaf (grŵp 13), a'r rheini'n diwygio Deddf Cartrefi Symudol 1983, Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a Deddf Tai 2004. Cafodd pob un o'r naw gwelliant yn y grŵp eu derbyn.

## Safleoedd Awdurdodau Lleol i Sipsiwn a Theithwyr

- Roedd yr ail grŵp o welliannau yn cynnig sawl diwygiad technegol i'r Bil er mwyn diogelu safleoedd awdurdodau lleol i Sipsiwn a Theithwyr. Os caiff y Bil ei basio, felly, yn gymwys i safleoedd o'r fath yn ogystal â safleoedd cartrefi symudol preswyl.
- Roedd **gwelliannau 61 a 62** yn ychwanegu diffiniad o 'llain barhaol' at fersiynau Cymraeg a Saesneg y Bil, a **gwelliannau 63 a 64** yn ychwanegu diffiniad o 'llain dramwy' at y fersiynau Cymraeg a Saesneg.

## Amodau Trwyddedau Safle

- Roedd **gwelliannau 10 a 13** yn caniatáu i awdurdodau lleol osod amodau ar drwyddedau safle yn ymwneud â rheoli'r risg o lifogydd neu o erydu arfordirol, gan gynnwys nodi sut y dylai perchennog safle leihau effeithiau'r risgiau hynny a chyfleu'r risgiau i'r preswylwyr.
- Roedd **gwelliant 14** yn darparu y dylid arddangos tystysgrifau yswiriant atebolrwydd cyhoeddus fel amod o drwydded safle. Roedd hyn mewn ymateb i ymrwymiad a roddwyd i Jocelyn Davies AC yn ystod trafodion Cyfnod 2.
- Roedd **gwelliant 135** (a gyflwynwyd gan y Gweinidog, Carl Sargeant AC) yn darparu y câi awdurdodau lleol roi hysbysiad cydymffurfio i berchennog safle os nad oedd wedi talu hysbysiad cosb benodedig. Roedd **gwelliant 135A** Peter Black AC yn diwygio'r ddarpariaeth ymhellach fel bod rhaid tynnu'r hysbysiad cosb benodedig yn ôl cyn rhoi hysbysiad cydymffurfio.

## Prawf Person Addas a Phriodol

- Seiliwyd **gwelliant 26** ar argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor yng Nghyfnod 2 y dylid cryfhau'r darpariaethau perthnasol. Bellach, caiff ymgeiswyr sy'n methu'r prawf person addas a phriodol eu hysbysu o'r rhesymau am hynny gan yr awdurdod lleol, a bydd ganddynt yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad.

## Gorchmynion Ad-dalu

- Effaith **gwelliant 35** oedd dileu'r ddarpariaeth yn adran 33(10) a oedd yn mynnu bod cais am Orchymyn ad-dalu gan dribiwnlys eiddo preswyl mewn perthynas â safle a oedd heb ei drwyddedu yn cael ei wneud gan feddiannydd cartref symudol yn unig.

## Cyfrifoldeb y Perchennog

- Dileodd **gwelliant 36** adran 36 y Bil, a oedd yn darparu y câi perchennog safle derfynu tenantiaeth os oedd tenant yn cyflawni trosedd. Roedd yr adran wedi'i chymryd o hen ddeddfwriaeth, a'r teimlad oedd ei bod yn anacronistaidd a dianghenraid gan fod deddfwriaeth mwy diweddar wedi diogelu tenantiaid rhag cael eu troi allan.

## Diffiniadau a Dehongli

- Gwnaeth **gwelliannau 43, 60, 65 a 75** ddiwygiadau mân i'r diffiniadau a geir yn y Bil.

## Cymdeithasau Trigolion Cymwys

- Dileodd **gwelliant 70** adran 62(1)(h) y Bil fel na fyddai'n ofynnol mwyach i berchennog safle gydnabod cymdeithas trigolion gymwys yn ysgrifenedig. Drwy hynny, tynnwyd llais perchennog y safle o'r broses o gymeradwyo cymdeithas. Roedd hyn yn sgîl ymrwymiad a roddwyd gan y Gweinidog yn ystod trafodion Cyfnod 2.
- Darparodd **gwelliant 72** na fyddai datgelu manylion am gadeirydd, ysgrifennydd na thrysorydd cymdeithas trigolion gymwys yn golygu bod awdurdod lleol yn torri cyfrinach o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

## Ymrwymiadau'r Gweinidog

Yn ystod trafodion Cyfnod 3, ymrwymodd y Gweinidog, Carl Sargeant AC, i ystyried a thrafod y mater isod ymhellach cyn y Cyfnod Adrodd.

### Diffiniad o Deulu

- Bu trafodaeth yn ystod trafodion Cyfnod 2 y Pwyllgor fod rhai o'r geiriau a ddefnyddiwyd yn y Bil wedi dyddio. O ganlyniad, cytunodd y Gweinidog i ailystyried y mater a chyflwyno iaith mwy rhesymol yn ystod Cyfnod 3. Bwriad gwelliant 66 yng Nghyfnod 3 oedd dileu'r is-adran a oedd yn cynnwys y termau dan sylw, (adran 56(3) yn y Bil fel y'i diwygiwyd ar ôl Cyfnod 2), ond dywedodd y Gweinidog ei fod wedi ystyried y mater ymhellach a'i fod yn bwriadu gwneud rhagor o waith ar y diffiniad cyn y Cyfnod Adrodd, gyda chaniatâd y Cynulliad.

  Roedd Jocelyn Davies AC hefyd wedi cyflwyno sawl gwelliant mewn perthynas â'r mater (yng ngrŵp 8), ond cytunodd i beidio â'u cynnig ar sail addewid y Gweinidog. Dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil, Peter Black AC, yr hyn a ganlyn:

> 'Cafodd y diffiniad o deulu sydd yn y Bil ar hyn o bryd fel y cytunwyd arno yng Nghyfnod 2 ei bennu 53 mlynedd yn ôl, ac mae'n rhagddyddio llawer o ddatblygiadau cymdeithasol a deddfwriaethol, yn bennaf y ddeddfwriaeth sy'n mynd drwy Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi ar hyn o bryd ynglŷn â phriodas gyfartal. Felly, mae'n gwbl briodol ein bod yn myfyrio ar hyn. Mae'r Cyfnod Adrodd yn cynnig cyfle inni wneud hynny.'

## Y camau nesaf

Paratowyd **fersiwn ddiwygiedig o'r Bil fel y'i diwygiwyd yn ystod Cyfnod 3** gan y Swyddfa Ddeddfwriaeth.

Dechreuodd y Cyfnod Adrodd ar 11 Gorffennaf 2013 (y diwrnod ar ôl cwblhau trafodion Cyfnod 3). Mae modd i Aelodau gyflwyno gwelliannau pellach drwy'r Swyddfa Ddeddfwriaeth (**legislationoffice@cymru.gov.uk**) tan 6pm ar ddydd Mercher, 18 Medi 2013. Cynhelir trafodion y Cyfnod Adrodd yn y Cyfarfod Llawn ar 25 Medi 2013.

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am y Bil, cysylltwch â'r Clerc Deddfwriaeth, Helen Finlayson (**helen.finlayson@cymru.gov.uk**).